Polisi Presenoldeb

Nod ein Polisi Presenoldeb yw hyrwyddo ymagwedd ysgol gyfan tuag at bresenoldeb ac amlygu pwysigrwydd presenoldeb mewn perthynas â diogelu ein myfyrwyr gan ystyried fod ystadegau'n dangos fod yna gyswllt uniongyrchol rhwng tangyflawni a phresenoldeb gwael. Mae disgyblion sy'n mynychu'n rheolaidd yn gwneud cynnydd gwell, yn gymdeithasol ac yn academaidd. Bydd disgyblion sy'n mynychu'n rheolaidd yn ei chael yn haws i ymdopi gydag arferion yr ysgol, gwaith ysgol ac yn cael mwy o foddhad o ddysgu. Byddwn yn ceisio codi'r proffil presenoldeb drwy weithio ochr yn ochr â myfyrwyr, staff, rhieni a gofalwyr, y gymuned leol a'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS). Fel ysgol byddwn yn annog myfyrwyr i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon trwy ddarparu amgylchedd croesawgar, cefnogol a gofalgar, lle mae pob myfyriwr yn teimlo'n ddiogel. Nod hir dymor ein ysgol yw parhau i leihau absenoldeb a absenoldeb parhaus i alluogi'r canlynol:

• Anelu at lefel presenoldeb o 95.0% neu'n well

• Cynnal lefelau presenoldeb trwy hyrwyddo awyrgylch positif a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi.

• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb da.

• Sicrhau fod presenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol a bod rhesymau am absenoldebau yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson.

• Sicrhau prydlondeb ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

- Lleihau effaith negyddol absenoldeb ar gynnydd dysgwyr a'u dealltwriaeth o'u gwaith
- Hyrwyddo lles a diogelu plant

Myfyrwyr

Rhoddir gwybod i fyfyrwyr am bolisi ein hysgol ar bresenoldeb a phrydlondeb trwy eu Tiwtor Dosbarth, Pennaeth Cynnydd a'r UDA. Bydd y myfyrwyr yn ymwybodol o'r staff y gallant fynd atynt os oes problem a allai arwain at absenoldeb. Hysbysir myfyrwyr ar gychwyn y flwyddyn academaidd o'r gwobrau/sancsiynau bydd ar gyfer presenoldeb/prydlondeb.

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol hysbysir myfyrwyr o dargedau presenoldeb ysgol, targedau personol a thargedau eu blwyddyn arbennig. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gynnwys y myfyrwyr yn holl ethos yr ysgol ac i gynnal ymdeimlad o berthyn. Mae hyn hefyd yn cael ei amlygu'n wythnosol yn ystod amser cofrestr Taro'r Targed a chynghrair presenoldeb blynyddol.

Prydlondeb

Bydd myfyriwr yn derbyn sancsiwn os yw'n hwyr i'r ysgol neu wersi. Gwyddom fod pob ysgol, coleg a chyflogwr da yn gwerthfawrogi prydlondeb. Bydd y ffocws a'r brydlondeb y myfyrwyr yn eu cefnogi i adael yr ysgol yn barod i wynebu'r byd ehangach a gwaith gyda hanes da iawn o brydlondeb.

Cyfrifoldebau'r rhiant/gwarcheidwad

Mae rhieni/gofalwyr yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau presenoldeb rheolaidd a phrydlondeb eu plant. Dylai rhieni/gofalwyr ymgyfarwyddo â'r Polisi Presenoldeb hwn a dylent weithio'n agos gyda'r staff yr ysgol i oresgyn unrhyw broblemau a allai effeithio ar bresenoldeb plentyn.

- Os oes absenoldeb gofynnir i rieni/warcheidwaid adael inni wybod ar y diwrnod cyntaf o unrhyw absenoldeb gan nodi'r rheswm cyn 9:00am ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Gallwch wneud hyn drwy ffonio swyddfa'r ysgol a siarad â Miss Megan Pimble, neu gan ddewis opsiwn 1 i adael neges ar 01495 750405. Gallwch chi hefyd nodi absenoldeb eich plentyn trwy Class Charts.
- Os gwyddoch am reswm dros absenoldeb e.e. apwyntiad doctor neu ddeintydd, a fedrwch chi adael i ni wybod ymlaen llaw, e.e. trwy anfon y cerdyn apwyntiad i'r swyddfa. Lle bo'n bosib gofynnwn i chi drio cael apwyntiadau tu allan i amser ysgol.
- Dylai rhieni/gofalwyr sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd ar gyfer dechrau cofrestru am 8:30am. Os yw myfyrwyr yn hwyr yn gyson neu'n triwanta oddi o'r ysgol bydd hyn yn cael ei ystyried yn bryder diogelu oherwydd efallai na fyddwn yn gwybod y lleoliad o'r plentyn.

Staff

Hysbysir y staff am y canllawiau ar gyfer cwblhau cofrestrau a defnyddio codau absenoldeb trwy'r system SIMS.

Mae staff yn monitro presenoldeb a phrydlondeb myfyrwyr yn ddyddiol ac yn gweithredu'r gweithdrefnau effeithiol.

Athro Dosbarth

Yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw mae'r Tiwtor Dosbarth yn cael ei weld fel y ffigwr allweddol wrth hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd. Dylai'r Tiwtor Dosbarth-

- Fod yn enghraifft dda drwy fod yn brydlon i gofrestru bob amser
- Sicrhau bod myfyrwyr sy'n hwyr yn cael eu herio a'u trin yn unol â pholisi
- Sicrhau bod yr holl nodiadau gan rieni yn cael eu gweithredu arnynt cyn trosglwyddo i'r Swyddog Presenoldeb

- Rhoi gwybod i'r Pennaeth Cynnydd pan fydd problem gyda phresenoldeb neu prydlondeb sydd heb ei ddatrys
- Defnyddio amser Taro Targed er mwyn monitro presenoldeb
- Canmol myfyrwyr unigol y mae eu presenoldeb a/neu brydlondeb yn gwella.

Athro Pwnc

Dylai Athrawon Pwnc:

- Gymeryd gofrestr ar ddechrau pob gwers (a sicrhewch fod y myfyrwyr yn gwybod bod cofrestr yn cael ei gymryd)
- Dilyn i fyny unrhyw amheuaeth o driwanta fewnol trwy wirio gyda'r Swyddog Presenoldeb, Pennaeth Cynnydd ar unwaith fel mater diogelu posibl ac yna ymchwilio i weld os oes angen sancsiwn addas.

Ddim yn cwrdd gyda'r presenoldeb disgwyliedig

Os yw presenoldeb eich plentyn yn cwympo o dan lefel dderbyniol yn ystod unrhyw dymor ysgol fe fyddwn yn eich hysbysu trwy alwad ffôn, e-bost neu lythyr. Os oes pryder gan yr ysgol ynglŷn â'i lefel o bresenoldeb y mae'n ofynnol i ni hysbysu'r Swyddog Lles. Fe Fydd y Swyddog Lles a'r Pennaeth Cynnydd yn fonitor presenoldeb pob disgybl syth yn syrthio o dan 90%.

Ar ddiwedd pob tymor bydd cartrefi yn derbyn llythyr yn nodi pa gategori y mae eu mab/merch yn perthyn iddo.

Gwyrdd	**100%**	Dim diwrnodau coll	**Presenoldeb da: Cyfle gorau i lwyddo**
	98%	**4** diwrnod coll	
	95%	**10** diwrnod coll	
Ambr	**94%**	**12** diwrnod coll	**Presenoldeb gwael: Cyfle llai i lwyddo**
	93%	**14** diwrnod coll	
	90%	**19** diwrnod coll	
Coch	**85%**	**29** diwrnod coll	**Presenoldeb gwael iawn:** **Effaith difrifol ar addysg a lleihad mewn cyfleoedd bywyd**
	80%	**38** diwrnod coll	
	75%	**47** diwrnod coll	

FPN

Fel ysgol byddwn yn defnyddio'r holl strategaethau sydd ar gael i sicrhau bod gan bob disgybl sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Gwynllyw bresenoldeb da. Fodd bynnag, fel dewis olaf efallai y bydd angen i ni gyhoeddi rhybudd cosb sefydlog (FPN) fel rhan o'n strategaeth i ddod â'n ffigyrau presenoldeb yn ôl yn unol â'r lefelau cyn-Covid.

Fel y nodwyd, byddwn ond yn danfon FPN fel dewis olaf; Fel arfer, bydd materion yn cael eu datrys gyda chyfathrebu clir rhwng yr ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, pe byddem yn teimlo nad oes unrhyw resymau sylfaenol dros absenoldeb o'r ysgol yna bydd angen dilyn y broses FPN.

Gellir ystyried bod hysbysiadau cosb sefydlog yn briodol yn yr achlysuron canlynol:

- Colli o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb diawdurdod yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen i'r rhain fod yn olynol;
- Mae absenoldebau diawdurdod o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor neu oedi wrth ddychwelyd rhag gwyliau estynedig; neu
- Mae dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol yn barhaus, h.y. ar ôl i'r gofrestr gau, yn y tymor cyfredol. Ystyr "parhaus" yw o leiaf 10 sesiwn o gyrraedd yn hwyr;
- Triwantiaeth, lle mae'r plentyn wedi dod i sylw'r heddlu neu'r cyhoedd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol, heb reswm derbyniol.